**Adroddiad Blynyddol Amlosgfa Llwydcoed 2025/26 – Hysbysiad Archwilio**

Mae Rheoliad 15(2) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn gofyn bod Cydbwyllgor Amlosgfa Llwydcoed yn trafod a chymeradwyo'r datganiad blynyddol yn ystod cyfarfod gyda'r Aelodau i gyd erbyn 31 Mai, yn syth ar ôl diwedd y flwyddyn.

[Llofnododd ac ardystiodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol y datganiad blynyddol ar 10 Mehefin 2026, a llofnododd Cadeirydd y Cyd-bwyllgor y datganiad blynyddol ar 16 Mehefin 2026].

Mae Rheoliad 15(2) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol, yn dilyn ardystiad y Swyddog Ariannol Cyfrifol a Chadeirydd y Cyd-bwyllgor, y cyfeiriwyd ato uchod, bod Rhondda Cynon Taf yn cymeradwyo ac yn cyhoeddi'r datganiad blynyddol a oedd yn destun archwiliad. Roedd y Rheoliadau'n gofyn bod y broses yma wedi'i chwblhau erbyn 31 Gorffennaf 2026.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei disgwyliad o ran amserlen estynedig ar gyfer ardystio ac archwilio cyfrifon ariannol statudol ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26 (ar 30 Mehefin a 30 Medi yn y drefn honno) ac ar gyfer blynyddoedd dilynol a bydd yn ceisio ymgynghori ar y rheoliadau a gwneud diwygiadau iddyn nhw. Yn y cyfamser, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i gyrff gyhoeddi'r datganiad yma (yn unol â rheoliad 15(5)).

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, yr awdurdod cyfrifol, wedi adolygu ei amserlen o ganlyniad i hynny. Dydy'r archwiliad o ddatganiad o gyfrifon 2025/26 ddim wedi'i gwblhau eto a doedd barn yr archwilwyr ddim wedi'i ddarparu erbyn 31 Gorffennaf 2026. Dydy'r datganiad blynyddol sydd wedi'i gyhoeddi ddim wedi bod yn destun archwiliad.